Annwyl Rieni/Gofalwyr,

# HWRE... DYDD MAWRTH 12 TACHWEDD YW DIWRNOD SANAU OD!



Dydd Mawrth 12 Tachwedd

## BETH YW DIWRNOD SANAU OD?

**Mae Diwrnod Sanau Od yn rhan o Wythnos Gwrth-fwlio!**

I ddathlu'r ffaith fod pawb ohonom ni'n unigryw, rydym ni'n gofyn i blant wisgo sanau od i fynd i'r ysgol ar ddydd Mawrth 12 Tachwedd. Y llynedd, fe wnaeth dros 13,000 o ysgolion gyfranogi yn Niwrnod Sanau Od. Mae Andy Day (CBeebies/CBBC) a'i fand, Andy and the Odd Socks, yn cynorthwyo'r Gynghrair Gwrth-fwlio i fywiogi Diwrnod Sanau Od unwaith eto eleni. Gwrandewch ar y gân wych maent wedi'i recordio yn arbennig ar gyfer wythnos gwrth-fwlio, 'Dewiswch Barch'.

## PAM MAE DIWRNOD SANAU OD YN BWYSIG?

Mae'r diwrnod yn cyfleu neges bwysig i ddisgyblion sef y dylem ni allu bod yn ni ein hunain heb brofi unrhyw fwlio, ac mae'n ein helpu ni i ddathlu Wythnos Gwrth-fwlio mewn modd difyr a chadarnhaol.

## BETH HOFFEM NI EI GAEL GENNYCH CHI?

Mae'n hawdd iawn! Dyma beth i'w wneud.

1. **Cofiwch wisgo sanau od.**
2. Os dymunwch, gallwch rannu ffotograff neu fideo ar-lein. Mae croeso i chi hefyd gynnwys sain 'Dewiswch Barch' yn eich postiadau! Cofiwch ein tagio ni gan ddefnyddio **#DiwrnodSanauOd #WythnosGwrthFwlio** a thagio **@ABAonline** ac **@AndyOddSock** ar X. Neu **@CynghrairGwrthFwlio** ac **@AndyandtheOddSocks** ar Instagram.

## DIOLCH, DIOLCH, DIOLCH!

Rydym yn ysu i weld yr holl Sanau Od ar ddydd Mawrth 12 Tachwedd ...

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, gofynnwch i:

..............................................................................



ANTI-BULLYING ALLIANCE

TREFNYDD

DEWISWCH BARCH

#WYTHNOSGWRTHFWLIO

Andy and The Odd Socks

PARTNER

© Biwro Cenedlaethol y Plant – Elusen gofrestredig rhif 258825. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif 952717. Swyddfa gofrestredig: 23 Mentmore Terrace, Llundain E8 3PN. Cwmni Cyfyngedig trwy Warant.